Gwahoddiad i Dendro: Cefnogi Cyngor a Chymorth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Broses Gosod Cyllideb Llywodraeth Cymru

1. Cyd-destun

Cymru Can

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ei strategaeth ar gyfer 2023-2030, Cymru Can. Datblygwyd y strategaeth drwy broses o siarad â phobl a sefydliadau ledled Cymru i ddeall yr hyn sydd bwysicaf i'r Comisiynydd ganolbwyntio arno yn ystod ei gyfnod yn y swydd er mwyn helpu i wella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae Cymru Can yn nodi'r pum cenhadaeth a ddeilliodd o'r broses honno, sef:

- Gweithredu ac Effaith
- Hinsawdd a Natur
- Iechyd a Lles
- Diwylliant a'r Iaith Gymraeg
- Economi Llesiant
- Hefyd, dau faes ffocws trawsbynciol: Bwyd a Deallusrwydd Artiffisial.

Mae cyllidebu a chynllunio cyllidebau yn rhan bwysig o'r cenadaethau hyn ac mae hefyd yn faes corfforaethol mandadol ar gyfer gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Dadansoddiad y Comisiynydd o'r Gyllideb Flynyddol

Ers sefydlu'r tîm am y tro cyntaf, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi cynnal dadansoddiad o gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru. Mae'r broses hon yn llywio'r cyngor a'r cymorth a ddarperir gan y Comisiynydd wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Mae hefyd yn rhan o'r cylch craffu blynyddol ar y gyllideb a gynhelir gan Senedd Cymru y gwahoddir y Comisiynydd iddo fel arfer i roi tystiolaeth i helpu i lywio ei argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Fel un o'r prosesau gwneud penderfyniadau mwyaf i ddigwydd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru mae'n hanfodol bod Cyllideb Cymru yn cael ei chyflawni yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda datblygu cynaliadwy yn ganolog iddi.

Yn flaenorol, mae'r dadansoddiad a wnaed gan y swyddfa wedi canolbwyntio ar sefydlu i ba raddau y mae'r broses wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio sy'n sail i ddatblygu cynaliadwy fel yr amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ochr yn ochr â hyn, ers rhai blynyddoedd mae'r Comisiynydd hefyd wedi tynnu sylw at faes ffocws

penodol gan y Comisiynydd, er enghraifft, sut mae'r Gyllideb Ddrafft wedi blaenoriaethu camau gweithredu datgarboneiddio.

Yn unol â strategaeth newydd y Comisiynydd, Cymru Can, hoffem gael cymorth i ddeall sut mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r Ddeddf wrth ddyrannu ei chyllideb a sut mae'r gyllideb yn helpu i gyflawni ei hamcanion llesiant ac ar y blaenoriaethau a amlinellir ym mhob un o bum Cenhadaeth y Comisiynydd. Nod y Comisiynydd yw deall pa mor dda y mae'r gyllideb yn debygol o alluogi cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hynny, a lle y gallent gael yr effaith i'r gwrthwyneb.

O fewn y cefndir ariannol anodd yr ydym yn ei ganfod ein hunain, rydym yn chwilio am fewnbwn a chymorth technegol fforddiadwy/cost-effeithiol i gyflawni hyn.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am bob un o'r pum cenhadaeth trwy glicio ar y dolenni uchod.

Y Briff

a. **Sylfaen (dros y cyfnod Awst-Medi 2024)**

Gan nad oedd gennym y ffocws cenhadaeth sydd gennym yn awr pan wnaethom ein dadansoddiad yn y blynyddoedd blaenorol, hoffem gomisiynu dadansoddiad yn edrych yn ôl ar gyllidebau terfynol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys diwygiadau yn ystod y flwyddyn ar draws y cyfnod cyllideb aml-flynyddol 3 blynedd blaenorol (2020-2024) i nodi:

- Sefyllfa waelodlin ar gyfer sut mae'r blaenoriaethau a nodwyd ym mhum cenhadaeth Strategaeth Cymru Can wedi cael eu cefnogi drwy'r Gyllideb;
- Mae hyn yn cynnwys o dan ein cenhadaeth gyffredinol, 'Gweithredu ac Effaith', sefyllfa sylfaenol o ba mor dda y mae'r gyllideb wedi alinio â'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynnwys, Cydweithio, Integreiddio, Atal (yn benodol gan ddefnyddio'r diffiniad y cytunwyd arno o atal rhwng FGC a Llywodraeth Cymru), a Hirdymor; yn ogystal ag yn erbyn yr amcanion llesiant a amlygwyd yn y Rhaglen Lywodraethu;
- Enghreifftiau o ble mae'r Gyllideb wedi alinio'n dda yn flaenorol â ffocws pob cenhadaeth;
- Y bylchau sy'n dangos lle mae angen i ni annog newid yn ystod cyfnod y Gyllideb nesaf.

b. Sefydlu methodoleg ar gyfer dadansoddi parhaus dros gylch Cyllideb tair blynedd (dros y cyfnod Hydref 2024)

Gan ddefnyddio canfyddiadau'r ymarfer gwaelodlin yn adran a), hoffem i chi sefydlu methodoleg sgorio gyson i asesu pa mor dda y mae'r Gyllideb Ddrafft yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a amlygwyd gan bob un o'n cenadaethau bob blwyddyn a thuag at wariant ataliol.

• Dylai'r un fethodoleg sgorio fod yn berthnasol i unrhyw newidiadau i'r Gyllideb sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn.

• Byddwn yn defnyddio'r fethodoleg hon i olrhain perfformiad y broses gosod cyllideb yn erbyn blaenoriaethau pob un o'n pum cenhadaeth a phob un o'r pum ffordd o weithio ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru dros gyfnod o dair blynedd ac ar ôl hynny byddwn yn gwerthuso y fethodoleg.

c. Dadansoddiad ategol o Gyllideb Ddrafft 2025/26 (yn ôl yr angen dros y cyfnod Tachwedd 2024 - Mawrth 2025 yn amodol ar amserlenni Llywodraeth Cymru)

Cynnal dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft 2025/26 pan gaiff ei chyhoeddi, a ddisgwylir ym mis Rhagfyr 2024 ond gall y dyddiad hwn newid ychydig yn ôl disgresiwn Llywodraeth Cymru, er mwyn:

• Cymhwyso'r fethodoleg sgorio a sefydlwyd yn adran b) i'n helpu i ddeall sut mae'n adlewyrchu'r cyngor yr ydym wedi'i roi i Weinidog Cyllid Cymru o bob cenhadaeth.

• Cefnogi aelodau tîm FGC i ddeall a gallu cymhwyso'r fethodoleg sgorio.

2. Hyd y contract

Mae'r contract hwn yn cwmpasu cyfnod o 9 mis hyd at 31 Mawrth 2025.

3. **Cyllideb**

A fyddech cystal â rhoi amcangyfrif o gost i gyllideb ddangosol o £10-15K (gan gynnwys TAW) fel y gyllideb uchaf ar gyfer y gwaith hwn gan ddilyn y llinell amser isod? Cofiwch hefyd gynnwys unrhyw dasgau ychwanegol y gallai fod angen i'r gwaith eu cynnwys os oes angen.

4. **Ymateb i'r gwahoddiad hwn i dendro:**

Rhowch:

• Amlinelliad o'ch profiad perthnasol gan gynnwys pobl berthnasol yn eich tîm;
• Manylion cyfanswm pris y gwaith hwn. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad manwl o nifer y diwrnodau gwaith ynghyd â'r gost yr ydych yn amcangyfrif y bydd ei angen i gyflawni pob tasg a nodir yn a) i c). Er ein bod yn chwilio am amcangyfrifon realistig, byddwn yn edrych i bob tasg gael ei chyflawni mor effeithlon â phosibl;
• Amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau pob tasg a'r prosiect trosfwaol yn dilyn y dyddiadau allweddol a restrir isod. Rhaid cwblhau'r gwaith erbyn 31 Mawrth 2025;
• Datganiad o unrhyw gysylltiadau gwleidyddol neu unrhyw gysylltiad personol â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru y dylem fod yn ymwybodol ohonynt, ac os o gwbl, sut y byddent yn cael eu rheoli cyn penodi unrhyw gyflenwr;
• Eich ymateb i Holiadur Caffael Cyflenwyr FGC ar gefn y gwahoddiad hwn i ddyfynnu;
• Cadarnhad y byddwch ar gael i gyflawni'r tasgau ar yr amseroedd a nodir yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

5. **Sgorio**

Bydd yr ymatebion yn cael eu sgorio gan ddefnyddio 1/3 o bwysoliad cyfartal rhwng holiadur arbenigedd technegol, pris a llesiant (gweler isod).

E-bostiwch y wybodaeth hon i contactus@futuregenerations.wales **erbyn 16 Awst**.

Key Dates - subject to limited flexibly

Dyddiad	**Proses**
22 Gorffennaf 2024	Gwahoddiad i dendro
16 Awst 2024	Dyddiad cau i geisiadau
19 Awst 2024	Penodi cyflenwr llwyddiannus
20 Awst 2024 neu 2 Medi	Dyddiad dechrau'r contract – cyfarfod cychwynnol ar y dyddiad hwn
Awst-Medi 2024	Gwaelodlinio
Hydref 2024	Sefydlu methodoleg ar gyfer dadansoddi parhaus dros gylch Cyllideb tair blynedd
Tachwedd 2024 – Mawrth 2025	Cefnogi dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft 2025/26 (yn amodol ar amserlenni Llywodraeth Cymru)

31 Mawrth 2025	Dyddiad diwedd y contract

Holiadur Caffael Cyflenwyr Cynaliadwyedd FGC

Er mwyn helpu i ddewis ein cyflenwyr yn unol â'n polisïau ac i wella llesiant, rydym yn sgorio ar 3 elfen: **pris, arbenigedd a pherfformiad; cyfraniad at lesiant** fel y'i diffinnir i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Y Ddeddf) a'r nodau llesiant cenedlaethol fel y nodir yn y tabl isod.

Mae angen i ni hefyd sicrhau nad oes unrhyw risg i'r Comisiynydd weithio gyda'ch sefydliad, er enghraifft risg o ragfarn canfyddedig yn y broses ddethol. A fyddech cystal â sicrhau eich bod yn ymateb i'r cwestiwn olaf, ac os nodir unrhyw risg, nodwch sut y byddai risg o'r fath yn cael ei reoli.

Atebwch gynifer o gwestiynau ag y gallwch yn y tabl isod gan y bydd yr ateb yn cael ei ystyried yn ein proses ddethol. Bydd yr atebion yn cael eu hystyried ar gyfer traean o'r sgôr yn ein hasesiad o'r cyflenwr mwyaf addas.

Pwnc	Ateb	Gwybodaeth/Tystiolaeth
A ydych chi fel unig fasnachwr neu sefydliad yn dilyn cyflogaeth foesegol ac arferion cynaliadwy? Unrhyw beth yr hoffech ei nodi - cwestiynau manwl isod.		
Yn FGC rydym wedi ymrwymo'n arbennig i gaffael lleol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, lleihau allyriadau carbon a gwella bioamrywiaeth, yr iaith Gymraeg, a chadwyni cyflenwi moesegol fel y nodir yn ein cyngor i eraill. Unrhyw beth yr hoffech chi dynnu sylw ato yn ychwanegol at y cwestiynau isod		
Yn fwy manwl:	-	-

A oes gennych ardystiadau cynaliadwy (sefydliadol neu unigol)?		
A yw eich sefydliad neu weithrediad masnachwr unigol yn ddi-garbon? Sut ydych chi'n cyfyngu ar eich allyriadau yn eich teithio, ynni, pensiynau a chaffael?		
A yw eich gweithrediad neu sefydliad neu weithrediad masnachwr unigol yn sefydliad di-bapur a diwastraff?		
A yw eich cynhyrchion neu ddeunyddiau o ffynonellau lleol a chynaliadwy, yn cael eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu?		
A yw eich deunyddiau yn cael eu cydnabod yn rhydd o wrthdaro gan gynlluniau ardystio annibynnol fel electronicswatch.com a Greenpeace Guide to Electronics?		
A ydych yn sicrhau eich bod chi neu eich sefydliad neu weithrediad masnachwr unigol yn dilyn arferion teg a moesegol gan gynnwys arferion gwrth-gaethwasiaeth a thraffig dynol, masnach deg, stiwardiaeth forol a stiwardiaeth coedwigaeth, B-Corp neu achrediad y Ddraig Werdd? A ydych chi wedi ymuno â Nodyn Cyngor Caffael Llywodraeth Cymru ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru		

(sy'n cwmpasu nifer o'r elfennau hyn)?		
A yw eich gweithrediad neu sefydliad masnachwr unigol yn cymryd unrhyw gamau i leihau tlodi?		
Ydych chi'n Gyflogwr Cyflog Byw?		
Ydych chi'n sicrhau gwaith gweddus?		
A ydych yn cefnogi ac yn ymgymryd â chaffael teg a lleol?		
A ydych yn hyrwyddo twf cynhwysol?		
A ydych chi fel unig fasnachwr, eich sefydliad neu gyfarwyddwyr yn perthyn i unrhyw bleidiau gwleidyddol, neu unrhyw fuddiannau eraill y dylid eu datgelu fel rhai sy'n achosi risg bosibl (canfyddedig neu real) o ran enw da neu ragfarn negyddol i'r Comisiynydd?		

Datganiadau / fideo defnyddiol gan LlC i'ch helpu i ateb ein cwestiynau

Nodyn Cyngor Caffael ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru – Arferion Cyflogaeth Moesegol yng Nghadwyni Cyflenwi'r Sector Cyhoeddus

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddiannau Cymunedol - Helpu cyflenwyr i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am y bunt Gymreig

Llywodraeth Cymru 2019 Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel